Coleg y Cymoedd

Byddwch yn Llywodraethwr

Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Diolch am fynegi diddordeb mewn ymuno â Chorfforaeth Coleg y Cymoedd fel Aelod/Llywodraethwr[1].

Fel Llywodraethwr y Coleg, gall eich dealltwriaeth, profiad a syniadau ehangu persbectif ein cyfarfodydd. Rydym yn awyddus i gynnwys pobl o bob oed a chefndir diwylliannol, ond yn enwedig, dymunwn annog ceisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, sef menywod, LHDTC a lleiafrifoedd ethnig.

Efallai bod gennych brofiad o waith busnes, cymunedol neu gymdeithasol gydag elusennau, ymarfer ariannol neu gyfreithiol, neu efallai eich bod yn entrepreneur hyd yn oed. Gorau po ehangaf eich maes proffesiynol a'ch profiad diwylliannol.

Mae'r rôl yn un gwirfoddol heb dâl, er y gall aelodau hawlio costau ar gyfer teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â mynychu cyfarfodydd, digwyddiadau datblygu a chynadleddau.

Mae gan y Bwrdd aelodaeth o 20, ac mae'n cynnwys 2 aelod o staff, 2 fyfyriwr a 2 unigolyn o'r ddau awdurdod lleol sy’n gartref i’r Coleg. Mae Pennaeth y Coleg hefyd yn Llywodraethwr. Ar hyn o bryd mae swyddi gwag ar gyfer llywodraethwyr llawn ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgor.

Cynhelir cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn academaidd, fel arfer ar ddydd Llun, ac mae lleoliad y cyfarfodydd yn cylchredeg o amgylch pedwar campws y Coleg. Mae nifer o bwyllgorau hefyd yn bodoli i gefnogi gwaith y Gorfforaeth, sy’n cwrdd dair gwaith y flwyddyn.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn mwynhau bod yn rhan o dîm sy'n cefnogi'r Coleg wrth archwilio a herio penderfyniadau strategol allweddol ar yr un pryd.

Pob lwc!

Nigel Bayford

[1] Defnyddir y termau aelod a llywodraethwr yn gyfnewidiol.

Am Goleg y Cymoedd

Sefydlwyd Coleg y Cymoedd yn 2013 yn dilyn uno Coleg Ystrad Mynach a Choleg Morgannwg. Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn gyda safleoedd yn Aberdâr, Nantgarw, Rhondda (Llwynypia) ac Ystrad Mynach. Mae'r Coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau llawn a rhan amser o lefel Mynediad i lefel Gradd mewn dros 15 o feysydd cwricwlwm. Gan weithio mewn partneriaeth â mwy na 800 o gyflogwyr, mae tîm Gwasanaethau Busnes y Coleg hefyd yn cynnig ystod eang o becynnau Prentisiaeth a Hyfforddiant Masnachol Pwrpasol.

Mae'r Coleg wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei gyfleusterau yn y blynyddoedd diwethaf, gyda phrosiectau arobryn gan gynnwys adeilad Campws Nantgarw (campws gwerth £ 40 miliwn sydd wedi ennill gwobrau), Campws Aberdâr (campws gwerth £22 miliwn a agorwyd yn 2017), cyfleusterau Hyfforddiant Rheilffordd a Cherbydau Modur o’r radd flaenaf.

Ym mis Tachwedd 2017 roedd y Coleg yn destun arolygiad gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac fe’i barnwyd yn ddigonol o ran perfformiad cyfredol gyda rhagolygon da ar gyfer gwella.

Ein Cenhadaeth: *Eich llwyddiant yn y dyfodol yw ein cenhadaeth*

Gweledigaeth: *Cael ein cydnabod fel coleg rhagorol gan ddysgwyr, staff, busnes a chymunedau*

Ein gwerthoedd craidd yw:

Ein bod yn canolbwyntio ar ddysgwyr

Ein bod yn gwerthfawrogi pawb ac yn buddsoddi ynddynt

Ein bod yn uchelgeisiol, rydym yn gwrando ac yn cydweithio

Ein bod yn ymdrechu am berfformiad uchel

Ein bod yn ceisio gwelliant parhaus

Ein bod yn datblygu partneriaethau cryf ac effeithiol

Cyfrifoldebau Bwrdd y Gorfforaeth

Fel aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth, mae Llywodraethwyr yn gyfrifol am

- pennu cymeriad a chenhadaeth addysgol y Coleg a goruchwylio ei weithgareddau;
- sicrhau solfedd y Coleg a gwarchod ei asedau;
- cymeradwyo amcangyfrifon incwm a gwariant blynyddol;
- goruchwylio penodi, graddio, gwerthuso, atal, diswyddo a phenderfynu ar dâl ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch a'r Swyddog Llywodraethiant;
- gosod fframwaith ar gyfer tâl ac amodau pob aelod arall o staff;
- sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio gwaith academaidd y Coleg.

Er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol, disgwylir i lywodraethwyr

- mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a gwasanaethu o leiaf un Pwyllgor y Gorfforaeth;
- bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol megis diwrnodau i ffwrdd, apeliadau, gweithdai’r Pennaeth;
- mynychu digwyddiadau Coleg fel seremonïau gwobrwyo;
- gweithredu fel llysgennad i'r Coleg mewn lleoliadau lleol, rhanbarthol ac, weithiau, cenedlaethol os oes angen;
- mynychu rhaglenni hyfforddi a datblygu perthnasol ar gyfer Llywodraethwyr.

Hefyd, rhaid i lywodraethwyr

- cydymffurfio â Chod Ymddygiad a Moeseg y Gorfforaeth, cwblhau'r Gofrestr Buddiannau blynyddol a bodloni unrhyw ofynion statudol a roddir ar aelodau'r Gorfforaeth;
- datgan eu bod yn gymwys i fod yn Llywodraethwr;
- cwblhau gwiriad DBS.

Y Rhinweddau Personol Angenrheidiol

- diddordeb mawr mewn addysg bellach a hyfforddiant a phenderfyniad i wella llwyddiant myfyrwyr;
- gwybodaeth o gymuned y Coleg a'i chymeriad economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol;
- y gallu i ddeall materion cymhleth sy'n gysylltiedig â pholisi addysg a hyfforddiant cyhoeddus, cynllunio'r Coleg, a pherfformiad y Coleg;
- uchelgais ar gyfer Coleg y Cymoedd;
- y gallu i ffurfio perthynas waith effeithiol gyda chyd-lywodraethwyr a chyda myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid y Coleg;
- y gallu i graffu, herio a chefnogi gwaith uwch staff y Coleg;
- y gallu i gyfrannu at Fwrdd y Gorfforaeth sy'n dysgu trwy esiampl;
- awydd i weithio'n galed fel Llywodraethwr Gwirfoddol er budd Coleg y Cymoedd;
- parodrwydd i weithredu'n onest, yn agored a gyda chywirdeb.

Unigolion sy'n anghymwys i fod yn Aelodau

Rhaid i bob ymgeisydd sydd â diddordeb gadarnhau eu bod yn gymwys i fod yn aelod gan nad yw rhai pobl yn gymwys i fod yn aelodau o'r Gorfforaeth. Gall Bwrdd y Gorfforaeth hefyd wrthod penodi unrhyw un os yw'n fodlon nad ydynt yn gymwys i fod yn llywodraeth , yn ychwanegol at y meini prawf a bennir yn yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraeth, os ydynt:

- yn anaddas neu'n methu â chyflawni swyddogaethau aelodau;
- wedi'u gwahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2011;
- yn peri risg sylweddol i iechyd, diogelwch neu les plant neu oedolion bregus;
- wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n niweidio enw da a gonestrwydd y Coleg;
- yn achos unigolyn a benodir fel aelod busnes, awdurdod lleol, cymuned neu gyfetholedig ac mae'r Pwyllgor Chwilio wedi cynghori na ddylid penodi'r unigolyn.

Y broses ymgeisio

Rhaid i bob ymgeisydd sydd â diddordeb gyflwyno Curriculum Vitae (CV) ynghyd â llythyr cais sy'n manylu ar eu gallu i fodloni gofynion y Gorfforaeth. Rhaid cyflwyno ffurflenni monitro aelodaeth a chyfleoedd cyfle cyfartal hefyd.

Bydd y Pwyllgor Chwilio yn adolygu'r ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y fanyleb bersonol uchod a'r archwiliad o sgiliau a phrofiad perthnasol yr aelodau a pharatoi rhestr fer.

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i fynychu cyfweliad anffurfiol gyda'r Pwyllgor Chwilio. Mae'r cyfweliad yn broses ddwy ffordd er mwyn i'r ddwy ochr ddod i adnabod ei gilydd a phenderfynu a allant weithio mewn partneriaeth i gyflawni cyfrifoldebau'r Gorfforaeth, a sicrhau y gellir gwireddu'r ymrwymiadau amser angenrheidiol.

Yn dilyn y cyfweliad, bydd y Pwyllgor Chwilio yn cytuno ac yn cyflwyno ei argymhellion i Fwrdd y Gorfforaeth. Efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn cael eu hargymell ar gyfer aelodaeth y Pwyllgor cyfetholedig yn unig, yn hytrach nag fel aelodau llawn, oherwydd nifer y swyddi gwag a / neu sgiliau, profiad a gwybodaeth yr ymgeiswyr.

Bydd hyd y penodiad yn ôl disgresiwn Bwrdd y Gorfforaeth ond 4 blynedd yw hyd arferol y swydd ar gyfer aelodau. Gellir penodi aelodau cyfetholedig am gyfnod byrrach, yn dibynnu ar ofyniad sgiliau / profiad y Pwyllgor perthnasol.

Bydd y Swyddog Llywodraethu yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud.

Jennifer Owen
Swyddog Llywodraethu
Coleg y Cymoedd
Heol y Coleg
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QY
jennifer.owen@cymoedd.ac.uk